Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Bettws Lifehouse

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/08/2015**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol mewn pentref bach gwledig yn y Canolbarth yw Bettws Lifehouse. Agorodd yr ysgol yn 2007. Mae'n darparu addysg dydd ar gyfer hyd at 20 o ddisgyblion 9 i 19 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anhwylder y sbectrwm awtistig. Caiff disgyblion eu lleoli yno gan awdurdodau yng Nghymru a Lloegr.

Adeg yr arolygiad hwn, mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan bob disgybl, ac mae ychydig o ddisgyblion yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleoli.

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r ysgol wedi datblygu ystafell wyddoniaeth, sy'n galluogi disgyblion i ddilyn ystod ehangach o gyrsiau gwyddoniaeth.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- Mae'r ysgol yn cyflogi staff profiadol â chymwysterau da sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol mewn ystod eang o feysydd cwricwlwm
- Mae'r cynllunio ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir yn fanwl ac yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion disgyblion unigol
- Lle bo'n briodol, mae'r ysgol yn datblygu ei chyrsiau ei hun sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion disgyblion unigol, er enghraifft cwrs mewn gofal ceffylau
- Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau ar draws y cwricwlwm
- Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r lle sydd ganddi i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys
- Ceir ystod eang o adnoddau priodol, yn cynnwys llechi electronig ac offer celf a gwyddoniaeth
- Mae ethos cadarnhaol sy'n hyrwyddo hyder a hunan-barch
- Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn i gefnogi anghenion dysgu, ymddygiadol ac emosiynol y disgyblion
- Mae'r ysgol yn rhoi ffocws clir ar ddatblygu medrau meddwl disgyblion
- Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llawn â'r holl argymhellion o'r adroddiad monitro blynyddol blaenorol

### Meysydd i'w datblygu

**Dyma'r meysydd i'w datblygu yn yr ysgol:**

- Er bod gan yr ysgol wefan gynhwysfawr sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am yr ysgol, nid oes ganddi brosbectws ysgol y gellir ei roi i rieni neu randdeiliaid eraill
- Er bod yr adroddiad hunanarfarnu yn fanwl ac yn nodi cryfderau perthnasol a meysydd i'w datblygu, nid yw'r holl randdeiliaid yn cael eu cynnwys yn ffurfiol yn

y broses hunanarfarnu
- Er bod cynllun datblygu'r ysgol yn nodi meysydd priodol ar gyfer eu datblygu, nid yw camau gweithredu yn cael eu rhannu yn gamau digon bach; nid yw graddfeydd amser yn ddigon penodol, ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i reolwyr fonitro cynnydd

**Argymhellion**

**Dylai'r ysgol:**

A1. Ddatblygu prosbectws ysgol

A2. Cynnwys staff, disgyblion a rhanddeiliaid eraill yn y broses hunanarfarnu

A3. Sicrhau bod cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys camau gweithredu a graddfeydd amser eglur

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwneud yn siŵr bod gwaith disgyblion yn gynnar yn y bore yn cael ei farcio a'i olrhain i sicrhau eu bod yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae disgyblion yn llenwi taflenni arfer defnyddiol pan fyddant yn cyrraedd yn y bore. Mae'r marcio yn dangos yn gyson i ddisgyblion beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

**Argymhelliad 2: Cryfhau'r ffordd y caiff achosion difrifol eu cofnodi**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol yn cadw cofnodion manwl o ddigwyddiadau difrifol a'r defnydd o ymyriad corfforol. Mae staff yn cofnodi manylion yn brydlon. Mae tystion yn darparu cofnod ysgrifenedig o'r digwyddiad, a byddant yn ei lofnodi. Caiff disgyblion y cyfle i gofnodi eu barnau.

**Argymhelliad 3: Gwneud cais i Lywodraeth Cymru ymestyn cymeradwyaeth gofrestru'r ysgol o dan A347, i gynnwys disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Yn 2014, gwnaeth yr ysgol gais i Lywodraeth Cymru am newid sylweddol i dderbyn disgyblion ac anhwylder y sbectrwm awtistig.  Cymeradwywyd y newid gan Lywodraeth Cymru.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Bettws Lifehouse |
| **Rhif yr ysgol** | 666 6048 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 10/06/2015 |
| **Perchennog** | Bettws Lifehouse Ltd |
| **Staff** | 1 Pennaeth<br>1 Rheolwr Gyfarwyddwr<br>4 Athro/hyfforddwr amser llawn<br>9 Athro/hyfforddwr rhan-amser<br>4 cynorthwyydd cymorth dysgu rhan-amser (CCD) a staff goruchwylio cyflenwi<br>1 ymarferydd seicodynamig<br>1 anogwr dysgu rhan-amser |
| **Nifer y disgyblion** | 17 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae’r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (AECY), anawsterau dysgu cymedrol (ADC) ac anhwylder y sbectrwm awtistig (ASD) |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 21/05/2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 19/05/2014 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Elizabeth Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |